Ysgol y Dderwen

# Polisi Rhoi Meddyginiaeth

# Polisi Rhoi Meddyginiaeth

Gwneir trefniadau i gynorthwyo unrhyw blentyn sydd â salwch neu alergedd pan ddaw i'r ysgol gyntaf e.e. os oes clefyd y siwgr ar blentyn cedwir y melyster priodol ar ei gyfer/ei chyfer yn yr oergell. Os oes tabledi ar gyfer plentyn arbennig cedwir hwy yn y swyddfa neu yn yr ystafell ddosbarth a rhoddir hwy gan aelodau staff penodol. Gofynnir am wybodaeth gan y rhiant am y dos a'r amseroedd priodol. Mae'n rhaid i'r rhiant hefyd arwyddo ei bod yn rhoi caniatâd i'r ysgol rhoi'r feddyginiaeth i'w plentyn. Caiff y wybodaeth ei nodi ar ffurflen benodol a'i arwyddo gan yr athrawes ddosbarth a'r cynorthwyydd.

Cedwir rhestr o enwau disgyblion sy'n dioddef o gyflyrau arbennig ym mhob uned, megis ffitiau, alergedd. Ar y rhestr fe nodir rhifau ffôn cyswllt a'r gweithdrefnau priodol, pe bai argyfwng.
Cedwir anadlyddion plant ifanc gan yr athrawon yn storfa'r dosbarth yn y Dysgu Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2. Yn y Dysgu Sylfaen a C.A 2 mae'r rhiant yn llenwi ffurflen benodol er mwyn cadarnhau ei bod yn rhoi hawl i aelod o staff roi moddion i'r plentyn.

Ni roddir tabledi lleihau poen i blentyn yn yr ysgol a rhoddir gwybod i'r rhieni/warcheidwad os yw'r plentyn yn sâl a chedwir rhifau ffôn perthnasau at y pwrpas hwn. Mae croeso i rieni alw mewn i roi meddyginiaeth i'w plentyn, pe bai angen.

Os na fedrir cysylltu â/cael gafael ar rieni/perthnasau gofynnir am gyngor nyrs neu feddyg.

Os caiff plentyn ddamwain a'r rhieni/perthnasau heb fod ar gael, awn â'r plentyn i'r ysbyty neu galwn am y gwasanaeth ambiwlans.

Pan awn â'r plant ar wibdaith neu ymweliad addysgol, gofynnir i'r rhieni roi'r tabledi pwrpasol i'r plant sy'n goddef salwch wrth deithio, yn y bore. Awn â ffurflenni caniatâd gyda ni, a'r rhain yn cynnwys rhif ffôn cyswllt, rhag ofn i blentyn fod yn sâl.